# Cysylltu â gwasanaethau eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chysylltu â gwasanaethau eraill. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd i gleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau megis gwasanaethau cyhoeddus, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau iechyd a'r rhai sy'n cael eu darparu gan weithwyr lles proffesiynol ac eraill.

Mae'r safon yn edrych ar sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda gwasanaethau, darparu gwybodaeth iddyn nhw, a sut mae casglu gwybodaeth gan wasanaethau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r gwasanaethau sydd ar gael y gallech gyfnewid gwybodaeth â hwy yn unol â gofynion sefydliadol
2. ymgynghori â gwasanaethau ar eu gofynion gwybodaeth, yn unol â gofynion sefydliadol
3. cytuno ar ddiben, cwmpas a gweithdrefnau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda gwasanaethau
4. nodi rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth
5. nodi blaenoriaethau gwahanol wasanaethau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth
6. lledaenu gweithdrefnau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda gwasanaethau
7. adolygu gweithdrefnau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth
8. cadarnhau'r wybodaeth sy'n ofynnol gan wasanaethau
9. nodi gwybodaeth briodol, yn unol â gofynion sefydliadol
10. cynorthwyo gwasanaethau i gyrchu a dehongli gwybodaeth maent yn ei derbyn, yn unol â gofynion sefydliadol
11. cadarnhau gyda gwasanaethau bod gwybodaeth a ddarperir yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer eu hanghenion
12. darparu gwybodaeth ychwanegol i wasanaethau, yn unol â gofynion sefydliadol
13. pennu'r dulliau sydd i'w defnyddio i gasglu gwybodaeth gan wasanaethau
14. cyrchu ffynonellau gwybodaeth y cytunwyd arnynt, yn unol â gofynion sefydliadol
15. casglu gwybodaeth o wasanaethau gan ddefnyddio dulliau penodedig
16. cadarnhau dilysrwydd gwybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau
17. diogelu ffynonellau gwybodaeth, gan ddilyn gweithdrefnau cytunedig
18. nodi problemau wrth gasglu gwybodaeth
19. cydymffurfio â'r holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol mewn perthynas â chysylltu â gwasanaethau eraill
20. cofnodi gwybodaeth yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol
2. deddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol mewn perthynas â rôl y swydd/y gweithgareddau a gynhaliwyd
3. gwasanaethau lle gallai fod angen gwybodaeth a'r meini prawf i'w defnyddio
4. diwylliant ac ethos gwasanaethau
5. yr ystod o wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael
6. gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut mae eu haddasu at anghenion a dewisiadau'r lleill
7. pwy ddylai gael gwybod am weithdrefnau
8. pwysigrwydd deall amcanion gwasanaethau
9. gwybodaeth sy'n ofynnol gan wahanol wasanaethau
10. pwysigrwydd dod i gytundeb ar y mathau o wybodaeth sy'n cael eu cyfnewid a phwy sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth
11. blaenoriaethau gwasanaethau eraill
12. sut mae lledaenu gwahanol weithdrefnau gwasanaethau
13. gweithdrefnau sydd i'w hadolygu a phryd mae eu hadolygu
14. sut mae casglu gwybodaeth am ofynion a therfynau amser darparu a chyfnewid gwybodaeth
15. sut mae paru gwybodaeth â gofynion gwasanaethau
16. ble cedwir gwybodaeth
17.ffactorau sy'n effeithio ar sut caiff deunydd ei ddehongli
18. pam mae'n bwysig gwirio bod gwasanaethau wedi derbyn yr wybodaeth ofynnol
19. pa ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael a sut gall gwasanaethau ei chyrchu
20 mathau o wybodaeth sy'n ofynnol gan wasanaethau
21. dulliau y gellir eu defnyddio i gasglu gwybodaeth a'r anawsterau a all godi wrth wneud hynny
22. sut mae penderfynu a yw gwybodaeth yn ddilys
23. pam mae'n bwysig diogelu ffynonellau gwybodaeth
24. mathau o broblemau a allai ddigwydd wrth gyfnewid gwybodaeth, a'r camau i'w cymryd i ymdrin â phroblemau
25. pam mae'n bwysig ymdrin â phroblemau a goblygiadau peidio â gwneud hynny
26. gofynion cofnodi eich sefydliad, gan gynnwys sut mae storio gwybodaeth a gofnodwyd yn ddiogel

Cysylltu â gwasanaethau eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Chwef 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau |
| **RCU gwreiddiol** | AG012 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Gweithiwr Proffesiynol ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac Arbenigwyr Cyfarwyddyd Galwedigaethol, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Paratoi ar gyfer Gwaith, Gweithwyr canolfan alwadau/gyswllt, Gweithwyr proffesiynol ym maes lles, Ymgynghorwyr addysg ac arolygwyr ysgolion, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol |
| **Cyfres/Set** | Cyngor Cyfreithiol, Cyngor ac Arweiniad |
| **Geiriau Allweddol** | cyswllt; cysylltu; cyfathrebu; gweithdrefnau; cyfnewid gwybodaeth; atgyfeirio |